Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Twyncarmel

**Capel Twyncarmel,**
**Swansea Road,**
**Ystad Fairview**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1HW**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Twyncarmel

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Twyncarmel |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Linda Davies |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Aimee Herlihy |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 0 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8:30 a 3:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n cynnig 'Cynnig Gweithredol y Gymraeg'. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, a neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 19/05/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/10/2023 |
| Mae bron pob plentyn yn dod o gartref di-Gymraeg. Mae yna ychydig iawn o blant sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant â mynediad cyson i'r ardal tu allan

A2 Gwella defnydd ymarferwyr o batrymau iaith Cymraeg er mwyn datblygu dealltwriaeth y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o blant lais cryf ac maent yn lleisio eu barn yn gyson. Er enghraifft, maent yn dewis symud o amgylch yr ystafell yn hyderus o un weithgaredd i'r llall ac yn helpu eu hunain i adnoddau. Mae'r plant yn gwybod y caiff eu teimladau eu hystyried. Er enghraifft, maent yn gyfforddus yn mynd at eu gweithiwr allweddol am gysur a chefnogaeth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu. Maent yn hapus ac yn mynd ati i chwarae'n syth, yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent wedi datblygu perthynas agos â'r ymarferwyr ac maent yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed. Mae hyn yn creu sicrwydd i'r plant wrth iddynt ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cymdeithasu priodol. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn cyfarch ffrindiau wrth iddynt gyrraedd gan floeddio 'bore da' yn gyffrous ac yn dangos hapusrwydd o'u gweld.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu yn fawr iawn. Er enghraifft, maent yn mwynhau chwarae rôl yn y tŷ bach twt gan fwydo eu babi am ei bod hi'n drist ac eisiau bwyd arni. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Mae'r plant wrth eu boddau'n defnyddio'r adnoddau ac mae'r rhan fwyaf yn dewis treulio'u hamser tu allan yn gynhyrchiol.

Maent yn defnyddio'r offer i arllwys a llenwi dŵr i mewn i silindrau mesur ac yn datblygu eu medrau corfforol yn dda wrth fynd ar y wal ddringo, neidio oddi ar focsys pren a reidio beiciau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol yn dda, er enghraifft drwy nôl tisw i sychu trwyn a'i roi yn y bin cywir. Mae helpwyr y dydd yn dosbarthu platiau a gwydrau ar gyfer byrbryd yn hyderus a balch. Mae'r plant yn arllwys eu diod o jwg yn fedrus ac yn helpu eu hunain i amrywiaeth o ffrwythau. Ar ôl gorffen, maent yn gwybod i fynd â'u gwastraff i'r bin.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau gan ddewis sut i dreulio eu hamser. Maent yn mwynhau mynd at wahanol adnoddau, y tu fewn a thu allan i'r adeilad ac yn dyfalbarhau'n briodol â'r gweithgareddau, gan ymgolli yn eu chwarae am gyfnodau hir.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd plant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n barhaus ar gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un ohonynt. O ganlyniad, maent yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau. Mae'r holl ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant ac maent yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn ffurfio perthynas agos iawn â'r plant ac yn darparu arweiniad a chymorth gofalgar. Maent yn casglu amrediad defnyddiol o wybodaeth gan rieni a gofalwyr am arferion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn ansicr wrth gyfarfod pobl anghyfarwydd ac yn eu cefnogi i feithrin eu hunanhyder. Mae'r ymarferwyr yn ymfalchïo yng nghynnydd y plant ac maent yn angerddol ynglŷn â darparu'r gofal gorau er mwyn sicrhau eu bod yn ffynnu.

Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu fel modelau rôl effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau'r plant, gan ymateb yn ofalus i'w hanghenion. Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol a charedig â'r plant ac maent yn dangos urddas a pharch tuag atynt yn gyson. Er enghraifft, maent yn ystyriol a gwyliadwrus wrth ddelio ag anghenion personol y plant, ac yn frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i weithgareddau yn yr ardal allanol. Hyrwydda'r ymarferwyr iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn

arferion dyddiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn treulio cyfnodau pwrpasol yn yr awyr iach. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu. Yn ogystal, mae gweithdrefnau effeithlon ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn creu awyrgylch dysgu ysgogol a phwrpasol sy’n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn cwrdd yn wythnosol i gynllunio cwricwlwm effeithiol sy’n cefnogi datblygiad plant a’u diddordebau yn llwyddiannus. Un o gryfderau’r cynllunio yw’r modd mae ymarferwyr yn ystyried awgrymiadau’r plant. Er enghraifft, yn dilyn trafodaeth gyda’r plant, mae ymarferwyr yn darparu pwmpen go iawn iddynt ei gerfio. Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’r ddarpariaeth yn fedrus er mwyn annog chwilfrydedd y plant a’u gwerthfarwogiad o ryfeddodau’r byd. Er enghraifft, ar fwrdd hydref, mae’r ymarferwyr yn annog y plant i weld effaith chwythu dail, sy’n destun rhyfeddod i’r plant.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio’n dda â’r plant ac maent yn fedrus wrth ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn modelu sut i dacluso’r teganau drwy gynnig eitem sydd angen ei rhoi heibio yn yr ardal adeiladu. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant gael mynediad parhaus at amrediad cyfoethog o adnoddau ac yn hwyluso’r chwarae yn effeithiol.

Yn ystod sesiynau grŵp cyfan, mae ymarferwyr yn cefnogi’n briodol wrth i blant hunangofrestru ar y sgrîn ryngweithiol. Maent yn modelu canu caneuon a hwiangerddi traddodiadol yn dda. Er enghraifft, wrth ganu ‘Mynd ar y Ceffyl’ a ‘Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed’, mae’r ymarferwyr yn gwneud symudiadau sy’n annog y plant i ymuno. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro’n manteisio ar y cyfle i gyflwyno geirfa ac ymarfer patrymau iaith cyfarwydd er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth y plant ac annog eu medrau llafar.

Wrth i’r plant chwarae, mae ymarferwyr yn annog medrau rhifedd y plant yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfri nifer y dail sydd ar y goeden fach yn yr Ardal Fathemateg. Maent yn trafod priodweddau gwahanol siapau cyfarwydd sy’n cael eu harddangos ar y sgrîn fawr, neu wrth ganu rhigymau’n llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn cynnig darpariaeth dda i ddatblygu medrau cynnar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r plant. Er enghraifft, maent yn cefnogi’r plant yn gyson dda wrth iddynt ddatblygu medrau digidol wrth chwarae gêm chwilio am granc ar y sgrîn ryngweithiol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol. Er enghraifft, yn yr ardal allanol, maent yn modelu defnyddio siswrn wrth i blant dorri dail yn ddarnau mân. Maent yn cynnal sesiwn ioga buddiol sy’n annog y plant i ddod yn fwy ymwybodol o gydbwysedd a rheoli eu cyrff yn fedrus. Mae ymarferwyr yn modelu symudiadau’n effeithiol gan ddenu mwy o blant draw i ymuno.

Yn yr ardal allanol, maent yn cefnogi plant yn fedrus wrth iddynt ddatblygu cryfder corfforol a chydbwysedd wrth ddringo ar yr offer mawr.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu gwybodaeth am ddiwylliant Cymru a'r gymuned yn dda. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n effeithiol wrth drefnu i'r plant fynd allan i'r gymuned i berfformio yn y Gymraeg mewn digwyddiad lleol, sef y Ffair Siwmae.

Er mwyn ymateb i ofynion y cwricwlwm, mae ymarferwyr yn datblygu gweithdrefnau asesu pwrpasol newydd a chynhwysfawr. Mae'r asesiadau'n gyfuniad o wybodaeth o arsylwadau ar blant a chasgliad o wybodaeth oddi wrth rieni a gofalwyr. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu medrau'r plant ac ymateb i'w diddordebau.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn lân. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw risgiau sy'n cael eu hadnabod er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r safle'n ddiogel ac ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a'r gofynion sydd arnynt, er enghraifft wrth gynnal driliau tân rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a chyfeillgar. Mae cynllun yr amgylchedd a'r adnoddau yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ystafell i ddarparu ardaloedd chwarae a dysgu symbylus i'r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych i'r plant ddefnyddio'r cyfarpar a'r adnoddau'n annibynnol, fel yn yr ardal chwarae rôl a'r ardal beintio a chwarae'n greadigol. Ceir amrywiaeth ddifyr o adnoddau sydd o fewn cyrraedd y plant ymhob ardal, gan gynnwys adnoddau sy'n hybu eu ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Er enghraifft, mae doliau ac offerynnau cerddorol o wahanol ddiwylliannau ar gael. Yn ogystal, darperir nifer fawr o adnoddau naturiol fel boncyffion coed, reis, gwellt, cerrig mân lliwgar a moch coed sy'n hybu chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o adnoddau i greu ardaloedd dysgu pwrpasol, sy'n cynnig cyfleoedd anturus. Mae'r gegin fwd yn cynnwys llestri a pheiriannau fel yr hyn a welir mewn cegin adref, fel microdon, peiriant ffrio ac offer coginio go iawn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu medrau llythrennedd cynnar trwy wneud marciau ymhob ardal chwarae tu fewn a thu allan, ar bapur, neu wrth ddefnyddio sialc a chreonau. Mae'r amgylchedd allanol yn cynnig gofod helaeth â chyfleoedd cyffrous i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach. Fodd bynnag, nid yw trefn yr amgylchedd yn caniatáu i'r plant fedru mynd allan pan y dymunir. Mae'r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, yn lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau chwarae annibynnol, doeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r arweinwyr yn hyrwyddo ethos positif, cynhwysol a hapus yn y lleoliad. Maent yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy’n cynnig cyfleoedd buddiol i ymarferwyr rannu syniadau am weithgareddau ar gyfer y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o ofynion y cwricwlwm ac wedi cael cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol. Maent yn trefnu dyddiau hyfforddi pwrpasol er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol. Mae ganddynt barch tuag at ei gilydd ac maent yn teimlo’u bod yn aelod gwerthfawr o’r tîm.

Mae gan arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer creu darpariaeth hapus a gweithgar lle mae pob unigolyn yn mwynhau dysgu. Mae arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy’n seiliedig ar amrediad effeithiol o dystiolaeth. Maent yn adnabod agweddau penodol ar gyfer eu datblygu ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol er mwyn datblygu’r ddarpariaeth a chefnogi profiadau a lles y plant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o unrhyw grantiau i wella profiadau a darpariaeth sy’n unol â’r weledigaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar newid naws y lleoliad drwy ddefnyddio mwy o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol.

Mae’r arweinwyr wedi paratoi datganiad o fwriad sy’n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i alluogi rhieni i wneud penderfyniad am ofal eu plentyn. Mae’r person cofrestredig yn gefnogol ac yn cyfathrebu â’r arweinwyr yn rheolaidd ynglŷn â gweithrediad dydd i ddydd y lleoliad. Mae’r adroddiad blynyddol ar werthuso ansawdd y gofal yn ystyried barn y plant, staff, rhieni ac eraill sydd ynghlwm â’r lleoliad.

Mae gan arweinwyr system gadarn wrth recrwitio ymarferwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu hanwytho’n briodol, yn monitro eu gwaith am chwe mis, ac yn cynnal arsylwadau yn rheolaidd ar eu perfformiad.

Un elfen gryf sydd gan yr arweinwyr yw adnabod cryfderau’r ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfle i bawb arwain sesiynau amser cylch. Cymraeg yw iaith y lleoliad ac mae’r arweinwyr yn ymwybodol o amrywiaeth yn rhuglder y tîm. Maent yn gadarn wrth eu hannog i gyfathrebu yn Gymraeg gyda’i gilydd a gyda’r plant. Fodd bynnag, nid yw’r holl ymarferwyr yn gwbl hyderus yn y Gymraeg ac nid oes ganddynt bob tro’r wybodaeth angenrheidiol i wella geirfa a phatrymau brawddeg y plant.

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau buddiol. Mae arweinwyr yn cydweithio’n dda â’r awdurdod lleol sy’n ymweld yn rheoliadd ac yn ymateb i’r adborth yn dda. Maent yn cydweithio’n fwriadus â’r rhieni a gofalwyr ac yn gwahodd plant newydd a’u teuluoedd i ymweld â’r lleoliad er mwyn iddynt ymgyfarwyddo a setlo. O ganlyniad, mae ymarferwyr ac arweinwyr yn adnabod y teuluoedd ac yn gallu eu cefnogi’n effeithiol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn manteisio ar bartneriaethau â busnesau lleol i gynnig profiadau gwerthfawr i’r plant, er enghraifft drwy ddod â chreaduriaid anarferol fel neidr a madfall i’r lleoliad. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau cyfleoedd

buddiol i gyfathrebu ag ysgol gynradd leol i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i gam nesaf eu haddysg yn ddidrafferth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 12 Rhagfyr 2023